

Ydych chi am i'ch busnes ffynnu yng Nghymru?

Canllaw Cyflym – Cod Ymarfer:
Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Allwch chi ateb **unrhyw un** o'r cwestiynau hyn yn gadarnhaol?

A ydych chi'n sefydliad sy'n meddwl am les eich gweithwyr?

A ydych chi'n fusnes sydd wedi'i leoli yng Nghymru?

A ydy eich sefydliad trydydd sector yn cael arian cyhoeddus?

A ydych chi'n cymryd rhan yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus?

Os ateboch chi **YDYN/YDY** i unrhyw un o'r cwestiynau, gwnewch baned, a chymerwch fisged, a rhoi 5 munud i ddarllen tudalennau 6 a 7 o'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi – www.llyw.cymru/cod-ymarfer (neu, gwylwch yr animeiddiad 4 munud – <https://youtu.be/pEVJn2mKl9Y>).

Rydyn ni'n eich hannog chi i ymuno â'r ymgyrch i ymdrin ag arferion cyflogaeth anfoesol ac anghyfreithlon drwy ymuno â'r Cod Ymarfer. Rydwn ni'n gwerthfawrogi bod angen cyflwyno rhai o'r ymrwymadau hyn yn raddol a bydd yn cymryd amser i'w gweithredu. Peidiwch â phoeni – rydwn ni yma i roi help llaw os bydd angen, ee: hyfforddiant ac arweiniad.

Mynegwch ddiddordeb mewn ymuno drwy anfon e-bost at PolisiMasnachol@llyw.cymru

Angen canllaw gam wrth gam?

Defnyddiwch yr adnodd di-dâl **TISCREport** – <https://tiscreport.org/wales> i ddod o hyd i'ch sefydliad sydd efallai wedi'i restru ar y wefan eisoes. Gallwch chi ddefnyddio'r adnodd i lunio eich datganiad caethwasiaeth fodern, tracio eich cyflenwyr a'ch cynnydd chi yn erbyn yr Ymrwymadau. Efallai cewch chi syndod eich bod chi eisoes wedi bodloni llawer ohonyn nhw!



Cofrestr Transparency
In Supply Chains

Yn barod i ymuno'n ffurfiol?

Anfonwch e-bost i PolisiMasnachol@llyw.cymru, gan ddefnyddio "Cod Ymarfer" fel pwnc a chynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- eich enw, rôl
- cyfeiriad e-bost
- enw'r sefydliad a manylion cyswllt

